**NUJ**
**NATIONAL UNION OF JOURNALISTS**

SWYDD WAG

CONTRACT LLAWRYDD TYMOR PENODOL 1 FLWYDDYN

2025-2028

Yn amodol ar gadarnhad o ran cyllid

**NUJ TRAINING** CYMRU | WALES

# RHEOLWR PROSIECT - HYFFORDDIANT NUJ CYMRU WALES

**Datblygu Sgiliau Parhaus mewn Diwydiant sy'n Newid yn Gyflym 2025-2028**

Mae Hyfforddiant NUJ Cymru yn chwilio am reolwr prosiect profiadol, hunangyflogedig am hyd at 12 diwrnod y mis, i weithio ar brosiect datblygu sgiliau yng Nghymru. Nod y prosiect yw helpu aelodau ac unrhyw weithwyr proffesiynol yn y cyfryngau yng Nghymru i ddysgu a gwella'u sgiliau mewn diwydiant y cyfryngau sy'n newid yn gyflym.

Prif amcan y prosiect yw datblygu a chyflwyno ystod o gyfleoedd datblygu sgiliau trwy ddigwyddiadau â thema a gweithdai yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein, ar gyfer gweithwyr proffesiynol cyflogedig a llawrydd.
Bydd y Rheolwr Prosiect, a fydd yn byw yng Nghymru ac yn gweithio o gartref yn bennaf, yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni amcanion y prosiect o fewn y terfyn amser a'r gyllideb. Mae hyn yn cynnwys:

- cynllunio strategaeth, cyflwyniad a rheolaeth ariannol y prosiect. Cyflwyno adroddiad ariannol a naratif i Lywodraeth Cymru, yr NUJ a Phwyllgor Gweithredu Cymru yr NUJ
- datblygu a chefnogi fframwaith ar gyfer Prentisiaethau Newyddiaduraeth Ddigidol
- cadw i'r funud â thirwedd newyddiaduraeth a'r cyfryngau yng Nghymru - ac ymateb yn briodol
- datblygu a monitro ystod o seilweithiau dysgu i hwyluso datblygu sgiliau; cysylltu â hyfforddwyr llawrydd, a'u rheoli
- arolygu, monitro, gwerthuso a blaenoriaethu'r ddarpariaeth hyfforddi i sicrhau cynaliadwyedd
- cysylltu â'r Gweinyddwr/Cydlynydd Prosiect a gweithwyr dan gontract eraill
- cyrchu hyfforddwyr ar gyfer gweithdai newydd, a chytuno ar eu telerau, e.e. gweithdy ar effaith y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (o 25 Mai 2018) ar newyddiadurwyr
- meithrin partneriaethau presennol a rhai newydd datblygol ar gyfer gweithgareddau hyfforddi a digwyddiadau ar y cyd, a chysylltu â rhanddeiliaid; trefnu a chadeirio Grŵp Llywio'r prosiect
- arolygu a rheoli cynnwys gwefan Hyfforddiant NUJ Cymru Wales, lle mae cyfranogwyr yn cael eu diweddaru ar y datblygiadau (cymorth technegol gan ddatblygwr y wefan)
- arolygu allbwn cyfryngau cymdeithasol y prosiect
- hwyluso gweithdai a digwyddiadau hyfforddi (ar-lein, Caerdydd, canolbarth a gogledd Cymru ar gyfer Sioe Deithiol y Cyfryngau Cymdeithasol)
- ysgogi a hwyluso hyfforddiant mentora a hyfforddi a sesiynau diweddaru sgiliau ynghyd ag adeiladu ar rwydwaith sefydledig
- ysgrifennu blogiau hyfforddi ar gyfer y wefan
- ysgrifennu cynigion am gyllid ychwanegol os bydd y cyfle'n codi

## Y sgiliau a'r profiad angenrheidiol:

- profiad o reoli prosiect: meddu ar y sgiliau i reoli pob agwedd ar y prosiect a chyflawni amcanion o fewn y terfyn amser a'r gyllideb
- profiad dangosadwy o drefnu rhaglenni hyfforddi a chyfleoedd datblygu sgiliau
- y gallu i arsylwi a gwerthuso gweithdai hyfforddwyr mewn termau addysgol
- ymwybyddiaeth o'r heriau datblygu sgiliau sy'n wynebu'r rhai hynny sy'n gweithio yn niwydiant y cyfryngau yng Nghymru (byddai cefndir mewn newyddiaduraeth yn ddymunol ond nid yn ofynnol)
- sgiliau cyfathrebu geiriol ac ysgrifenedig rhagorol, yn cynnwys sgiliau golygu ac ysgrifennu cryf a'r gallu i gynhyrchu amrywiaeth eang o ddeunyddiau ysgrifenedig at ddibenion mewnol ac allanol
- profiad o drefnu a hwyluso digwyddiadau
- gallu a phrofiad o ran defnyddio platfformau cyfarfod ar-lein fel Zoom, Microsoft Teams ac ati
- y gallu i feithrin perthnasoedd gweithio cryf gyda'r holl randdeiliaid yn y prosiect a dealltwriaeth o'r heriau a wynebir mewn hyfforddi a datblygu undebau, gan greu diwylliant dysgu gydol oes a chynefindra â pholisi cydraddoldeb ac amrywiaeth yr NUJ
- y gallu i ymchwilio, dadansoddi a chofnodi gwybodaeth yng nghyd-destun y prosiect
- person hunangymhellol, disgybledig, trefnus iawn a all gychwyn arni'n ddibetrus
- meddyliwr creadigol a all gyflwyno a gweithredu syniadau newydd
- byddai cymhwyster addysgu yn ddymunol ond nid yn ofynnol
- dwyieithog (Cymraeg/ Saesneg) – o ddewis
- fel gweithiwr llawrydd sy'n gweithio o gartref, byddwch yn darparu ac yn cynnal eich caledwedd addas i'r pwrpas eich hun (gliniadur, argraffydd) gyda diogelwch sy'n cydymffurfio â GDPR.

**Teitl y Contract:** Rheolwr Prosiect, Hyfforddiant NUJ Cymru Wales
**Teitl y prosiect:** Datblygu Sgiliau Parhaus mewn Diwydiant sy'n Newid yn Gyflym 2022-2025 (Blwyddyn 1)
**Tâl:** £235 y dydd (hyd at 12 diwrnod y mis) | **Swydd Cyfnod Penodol:** **1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2028**
**Math o Gontract:** Contract cyfnod penodol llawrydd/hunanreoli/hunanoruchwylio (Yn amodol ar gadarnhad o ran cyllid)
Ariennir y prosiect hwn gan Gronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) Llywodraeth Cymru ac yn ôl rheolau'r cyllid rhaid i'r Rheolwr Prosiect fyw yng Nghymru.

Os hoffech ymgeisio am y contract hwn ac mae gennych y sgiliau a'r profiad angenrheidiol, e-bostiwch eich CV, llythyr eglurhaol a'r hysbysiad preifatrwydd GDPR wedi'i lofnodi at **personnel@nuj.org.uk** i gyrraedd heb fod yn ddiweddarach na hanner dydd 26/03/25. Noder na fydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.
Rhowch y cod **'RhP CYMRU'** ar eich cais.

Mae'r NUJ yn ymlynu wrth ei bolisi cyfle cyfartal